Crëwyd y cynnwys hwn gan y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar cyn uno â Beth sy'n Gweithio i Ofal Cymdeithasol Plant i greu Foundations.

Mae'r cynnwys yn cynnwys logos a brandio'r hen sefydliad.

Foundations
What Works Centre for Children & Families

foundations.org.uk

EARLY INTERVENTION FOUNDATION

CYMRU

Llyfr gwaith matrics aeddfedrwydd yr EIF

Mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar

Pecyn hunanasesu i gefnogi dull system gyfan o wella canlyniadau i blant

Cyflwyniad

Mae blynyddoedd cynnar bywyd, gan gynnwys beichiogrwydd a genedigaeth, yn gyfnod arwyddocaol o dwf unigolyn. Maen nhw'n hollbwysig wrth bennu datblygiad corfforol, cymdeithasol ac emosiynol, ymddygiadol a gwybyddol mewn ffyrdd sy'n cael effaith gydol oes ar iechyd a lles. Gall ymyrryd yn gynnar leihau ffactorau risg a chynyddu ffactorau amddiffyn mewn bywyd plentyn. Golyga hyn fod mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar yn arbennig o bwysig er mwyn i ymyrraeth gynnar atal neu leihau effeithiau negyddol y mae plentyn neu deulu yn cael profiad ohonynt.

Mae gwasanaethau mamolaeth a blynyddoedd cynnar yn hanfodol i ddarparu'r cymorth sydd ei angen ar blant a theuluoedd ac i nodi'r rhai hynny y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt gan wasanaethau lleol eraill. Wrth i awdurdodau lleol, y GIG a phartneriaid lleol eraill weithio ar y ffordd orau o gynnal a datblygu gwasanaethau mamolaeth a blynyddoedd cynnar, mae galw am dystiolaeth i lywio penderfyniadau lleol, ac am gymorth i gynllunio system leol effeithiol i blant a'u teuluoedd.

Mae matrics aeddfedrwydd mamolaeth a blynyddoedd cynnar yr EIF wedi'i ddatblygu i gefnogi ardaloedd lleol i lunio dull system gyfan o wella canlyniadau i blant a theuluoedd. Mae'n becyn hunanasesu i gefnogi partneriaid lleol i ddeall y sefyllfa o ran ymyrraeth gynnar yn ystod plentyndod, nodi meysydd i'w gwella a chydweithio i gyflawni newid cadarnhaol.

Mae'r disgrifyddion a'r lefelau cynnydd yn y matrics hwn yn gyson â fersiynau blaenorol, gan gynnwys y matrics lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y blynyddoedd cynnar a gyhoeddwyd yn 2018. Fodd bynnag, mae'r newid i fod yn benodol ynglŷn â mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar yn adlewyrchu'r dystiolaeth ar ddatblygiad y plentyn a phwysigrwydd gwella integreiddio ar lefel leol rhwng cymorth amenedigol a bod yn barod i'r ysgol.

Dod o hyd i'r matrics aeddfedrwydd sy'n iawn i chi

Mae fersiynau cryno a llawn o lyfr gwaith y matrics aeddfedrwydd mamolaeth a blynyddoedd cynnar ar gael ar wefan yr EIF, gan gynnwys fersiynau ar wahân o bob un i'w defnyddio yng Nghymru a Lloegr. I gael gwybod mwy ac i lawrlwytho'r pecyn sy'n addas i chi, ewch i EIF.org.uk/ey-mm

Yn y llyfr gwaith hwn:

- Trosolwg o'r pedwar maes datblygiad yn ystod plentyndod cynnar.
- Cyflwyniad i ddefnyddio'r dull system gyfan o wella canlyniadau i blant a theuluoedd yn y systemau mamolaeth a blynyddoedd cynnar.
- Disgrifyddion ar gyfer 10 elfen allweddol sy'n ffurfio'r system mamolaeth a blynyddoedd cynnar.
- Enghreifftiau o wybodaeth ategol ar gyfer lefelau cynnydd o'r 'cynnar' i'r 'aeddfed'.
- Taflenni cofnodi ar gyfer rhwystrau lleol i newid a chamau blaenoriaeth.

Datblygiad yn ystod plentyndod cynnar

Yn aml, deellir bod datblygiad cynnar yn digwydd mewn pedwar maes cysylltiedig: corfforol, gwybyddol, hunanreoleiddio a chymdeithasol ac emosiynol. Mae astudiaethau'n dangos yn gyson bod y cymwyseddau cynnar a ddatblygir ym mhob un o'r rhain yn ffurfio'r camau datblygu ar gyfer cymwyseddau mwy cymhleth wrth i blant dyfu'n hŷn.

1

YMYRRAETH GYNNAR I GEFNOGI

Datblygiad corfforol

Mae datblygiad corfforol yn cynnwys iechyd corfforol, maeth a datblygiad echddygol manwl a bras plant. Mae lles corfforol plant wedyn yn gosod sylfaen ar gyfer datblygiad cadarnhaol yn y meysydd seicolegol eraill.

Pa ffactorau sy'n cefnogi datblygiad corfforol plant?

Er bod llawer o nodweddion corfforol wedi'u pennu'n genetig, caiff iechyd ac aeddfedu plant eu ffurfio gan eu hamgylchedd a'u gofalwyr hefyd. Mae ymddygiad gofalu sy'n cefnogi datblygiad corfforol plant yn benodol yn cynnwys sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn gynnes, eu bwydo â bwyd maethlon, a'u hannog i ymgysylltu â gweithgareddau chwarae ymarferol a gweithgareddau ysgogol corfforol eraill.

Sut gall gwasanaethau mamolaeth a blynyddoedd cynnar wneud gwahaniaeth?

Er bod yr holl wasanaethau blynyddoedd cynnar yn chwarae rhan bwysig mewn cefnogi datblygiad corfforol cynnar plant, mae gan fydwragedd ac ymwelwyr iechyd ran arbennig o allweddol. Yn ystod y cyfnod cynenedigol, mae bydwragedd yn hollbwysig wrth sicrhau bod babanod yn cael eu geni'n iach, drwy roi arweiniad i famau ar sut i gadw deiet maethlon a'r angen i osgoi sylweddau niweidiol. Ar ôl eu geni, mae ymwelwyr iechyd yn helpu i sicrhau bod babanod yn cadw'n iach drwy roi cyngor i ofalwyr ar fwydo o'r fron, deiet a cherrig milltir corfforol y plant. Mae ymwelwyr iechyd yn hollbwysig hefyd wrth sicrhau bod babanod yn mynd i'w hasesiadau iechyd, yn cael eu brechiadau ac yn cael gafael ar gymorth meddygol pan fo angen hynny. Mae gofal plant a darpariaeth cyn ysgol yn cefnogi datblygiad corfforol plant hefyd wrth iddynt dyfu'n hŷn. Mae gweithgareddau chwarae wedi'u trefnu yn helpu'n arbennig i blant ymarfer a gwella'u cydsymud echddygol bras, a gall gweithgareddau crefft a chwarae anniben helpu i fireinio datblygiad echddygol manwl plant.

2

YMYRRAETH GYNNAR I GEFNOGI

Datblygiad gwybyddol

Mae datblygiad gwybyddol cynnar yn cynnwys gwybodaeth plant am briodweddau ffisegol y gwrthrychau yn eu hamgylchedd bob dydd, gwerthfawrogiad o sut y mae eraill yn meddwl ac yn teimlo, gwybodaeth o rifau a chaffael iaith. Mae'r cymwyseddau gwybyddol pwysig hyn wedyn yn gosod y sylfaen ar gyfer llwyddiant plant yn ddiweddarach yn yr ysgol ac yn y pen draw yn y gweithlu.

Pa ffactorau sy'n cefnogi datblygiad gwybyddol?

Pennir datblygiad gwybyddol plant ar y dechrau gan ansawdd yr amgylchedd cynenedigol a phrofiad yn ystod genedigaeth. Wrth i blant dyfu'n hŷn, mae ansawdd amgylchedd dysgu y cartref y plentyn yn chwarae rhan gynyddol bwysig wrth ffurfio'r hyn y mae plant yn ei ddysgu a sut maent yn cymhwyso'u dysgu. Yn ogystal â llyfrau, teganau a gweithgareddau dysgu eraill, mae amgylchedd dysgu y cartref hefyd yn cyfeirio at yr addysgu neu'r 'sgaffaldwaith' cefnogi y mae rhieni'n ei roi i'w plant wrth ryngweithio â nhw bob dydd. Mae astudiaethau yn dangos yn gyson bod incwm y teulu a lefel addysg yn dylanwadu ar allu rhieni i ddarparu amgylchedd dysgu yn y cartref wedi'i gyfoethogi.

Sut gall gwasanaethau mamolaeth a blynyddoedd cynnar wneud gwahaniaeth?

Mae profiadau addysgol wedi'u cyfoethogi yn cefnogi datblygiad gwybyddol plant o bob oedran, er bod astudiaethau yn dangos bod angen i ymyriadau i fynd i'r afael â bylchau cyflawniad sy'n ymwneud ag incwm ddechrau yn gynnar, ym mlwyddyn gyntaf y plentyn yn ddelfrydol. Yn benodol, profwyd yn gyson fod ymyriadau ymweliadau cartref a gynigir i deuluoedd incwm isel o enedigaeth tan yn ddwy flwydd oed yn lleihau'r bylchau dysgu sy'n ymwneud ag incwm pan fydd plant yn dechrau yn yr ysgol gynradd. O ddwy flwydd oed ymlaen, mae astudiaethau yn dangos bod gofal plant wedi'i gyfoethogi ac addysg blynyddoedd cynnar leihau bylchau sy'n ymwneud ag incwm yn nysg gynnar y plant, yn arbennig pan gaiff ei gynnig ochr yn ochr â chymorth i rieni.

3

YMYRRAETH GYNNAR I GEFNOGI

Datblygiad hunanreoleiddiol

Mae datblygiad hunanreoleiddiol yn ymwneud â gallu plant i fonitro a rheoleiddio eu hymddygiad, sylw a mympwyon. Mae'r gallu i reoleiddio ymddygiad a theimladau yn helpu plant i ffurfio perthynas gadarnhaol ag eraill a rheoli eu dysgu yn yr ysgol. Ystyrir anawsterau i reoli ymddygiad a hysgogiadau yn y blynyddoedd cynnar yn rhagflas o broblemau ymddygiad yn ddiweddarach yn yr ysgol gynradd ac yn ystod llencyndod.

Pa ffactorau sy'n cefnogi datblygiad hunanreoleiddiol plant?

Cefnogir sgiliau hunanreoleiddio cynnar drwy gyfuniad o ffactorau a etifeddir a rhai amgylcheddol sy'n helpu plant i ddysgu i reoli eu mympwyon a'u hemosiynau. Mae ffactorau a etifeddir yn cynnwys y rhai hynny sy'n dylanwadu ar gaffaeliad iaith cynnar a rheoli sylw, ac mae ffactorau amgylcheddol yn cynnwys ymatebion rhieni i ymddygiad negyddol y plentyn.

Sut gall gwasanaethau mamolaeth a blynyddoedd cynnar wneud gwahaniaeth?

Mae astudiaethau'n dangos bod ymddygiad ymosodol ac anufudd yn gyffredin ymhlith plant bach. Er bod y problemau hyn yn datrys eu hunain i'r rhan fwyaf o blant wrth iddynt dyfu'n hŷn, mae'n bosibl y bydd rhai yn parhau ar ôl i'r plentyn fod yn ddwyflwydd. Yn yr achosion hyn, gall plant a rhieni elwi ar gymorth ychwanegol sy'n addysgu rhieni strategaethau newydd i reoli ymddygiad anodd eu plant neu'n eu helpu i nodi materion sydd wedi'u seilio ar sylw y gallai fod angen cymorth proffesiynol arnynt ar eu cyfer. Golyga hyn y dylai fod gan ymwelwyr iechyd, gofal plant a darpariaeth cyn ysgol ddulliau da ar waith i sicrhau y gall rhieni gael gafael ar raglenni rhianta sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth pan allai plant a rhieni elwa arnynt.

Mae rhaglenni â thystiolaeth dda o leihau ymddygiad trafferthus yn cynnwys Group Triple P, Empowering Parents/Empowering Communities a Incredible Years Basic Preschool.

4

YMYRRAETH GYNNAR I GEFNOGI

Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol

Mae datblygiad cymdeithasol ac emosiynol yn y blynyddoedd cynnar yn cynnwys gallu plentyn ifanc i ffurfio perthynas agos o ymddiriedaeth ag eraill, adnabod a mynegi ei emosiynau ei hun, dangos empathi a theimlo'n hyderus wrth archwilio'r byd o'u cwmpas a dysgu pethau newydd. Mae rhai astudiaethau yn awgrymu y gall datblygiad cymdeithasol ac emosiynol cadarnhaol yn y blynyddoedd cynnar amddiffyn plant rhag iselder a chanlyniadau iechyd meddwl gwael eraill pan fyddant yn hŷn.

Pa ffactorau sy'n cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant?

Mae rhieni a gofalwyr eraill yn cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol cynnar eu plentyn drwy ymddygiad sy'n sensitif ac ymatebol i anghenion y plentyn. Mae arferion rhagweladwy hefyd yn cynyddu sicrwydd a hyder plant yn eu hamgylchedd, yn ogystal â sicrhau eu bod yn cael digon o gwsg, sy'n helpu plant i reoleiddio eu hemosiynau a'u sylw yn well.

Mae'r rhan fwyaf o rieni yn deall yn reddfol sut i gefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol eu plentyn. Fodd bynnag, mae rhai rhieni yn ei chael yn anodd, yn enwedig pan fyddant dan bwysau neu'n ymdrin â'u heriau cymdeithasol ac emosiynol eu hunain. Mae amgylchiadau sy'n cynyddu straen rhieni yn cynnwys problemau iechyd meddwl, caledi economaidd ac anawsterau perthynas.

Sut gall gwasanaethau mamolaeth a blynyddoedd cynnar wneud gwahaniaeth?

Gall y rhan fwyaf o rieni gefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol eu plentyn heb unrhyw gymorth ychwanegol gan wasanaethau blynyddoedd cynnar. Fodd bynnag, gallai rhai rhieni agored i niwed, gan gynnwys y rhai sy'n ymdrin â phroblemau iechyd meddwl, elwa ar gymorth ychwanegol. Mae sgrinio ac asesu iechyd meddwl yn rheolaidd gan fydwragedd ac ymwelwyr iechyd drwy gydol y cyfnod amenedigol yn hollbwysig i sicrhau bod rhieni'n derbyn cymorth iechyd meddwl effeithiol pan fo angen hynny. Mae seicotherapi rhiant-plentyn yn enghraifft o gymorth iechyd meddwl i rieni sydd â thystiolaeth dda o wella canlyniadau i blant a rhieni pan fydd teuluoedd yn ei gael yn unigol am ryw 12 mis.

Datblygiad gwybyddol: tynnu sylw at iaith gynnar fel dangosydd sylfaenol o les plentyn

Mae'r pedwar maes datblygu a ddisgrifir dros y dudalen yn bwysig ac yn cydgysylltu. Rhan allweddol o ddatblygiad gwybyddol yw caffaeliad iaith cynnar, sy'n cyfrannu at allu plant i reoli eu hemosiynau a chyfleu teimladau, sefydlu a meithrin perthynas ag eraill, meddwl yn symbolaidd, a dysgu i ddarllen ac ysgrifennu.

Gan fod lleferydd, iaith a chyfathrebu yn gam datblygu hanfodol ar gyfer amrywiaeth o sgiliau gwybyddol a chymdeithasol ac emosiynol, yn ogystal â fel arwydd o amrywiaeth o faterion yn ddiweddarach mewn bywyd, mae hyn yn ffordd ragorol o asesu datblygiad nodweddiadol yn y blynyddoedd cynnar - dangosydd sylfaenol o les plentyn. Mae anawsterau iaith cynnar yn effeithio ar rhwng 8 a 10% o blant, a gall mwy na 50% o blant sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol uchel ddechrau'r ysgol ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Lleferydd

Yn cyfeirio at:

Dweud synau yn gywir ac yn y mannau cywir mewn geiriau. Mae hefyd yn ymwneud â siarad yn rhugl, heb betruso, ymestyn neu ailadrodd geiriau neu synau. Mae hefyd yn golygu siarad â mynegiant mewn llais eglur, gan ddefnyddio traw, lefel y sain a goslef i ychwanegu ystyr.

Iaith

Yn cyfeirio at:

Deall a gwneud synnwyr o'r hyn y mae pobl yn ei ddweud. Mae hefyd yn cynnwys defnyddio geiriau i greu brawddegau a ddefnyddir mewn darnau hwy o iaith lafar a datblygu sgyrsiau. Mae'r sgil hwn yn cynnwys rhoi gwybodaeth yn y drefn iawn i wneud synnwyr.

Cyfathrebu

Yn cyfeirio at:

Sut yr ydym yn rhyngweithio ag eraill; gallu siarad â phobl a chymryd tro yn ogystal â newid iaith yn briodol i'r sefyllfa. Mae'n cynnwys cyfathrebu di-eiriau, er enghraifft cyswllt llygaid, symudiadau a mynegiant wyneb. Mae cyfathrebu yn ymwneud hefyd â gallu ystyried safbwynt rhywun arall, goslef a'r cyd-destun ehangach.

Ffynhonnell: RCSLT, 2017

Trosolwg o'r dystiolaeth

1 Mae anawsterau iaith yn rhagfynegi problemau llythrennedd a darllen a deall, ond fe allant fod yn ddangosydd problemau ymddygiad plant ac iechyd meddwl hefyd. Pan fydd plant yn dechrau yn yr ysgol, mae sgiliau iaith yn parhau i fod yn rhagfynegydd cryf o'u llwyddiant academaidd. Mae tystiolaeth yn dangos hefyd fod plant â sgiliau geirfa gwael yn 5 oed yn fwy tebygol o gael anawsterau darllen yn oedolion, yn fwy tebygol o fod â phroblemau iechyd meddwl, ac yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith.

2 Nid yw datblygiad iaith yn ymwneud dim ond â nifer y geiriau y mae plant yn eu clywed a'u defnyddio. Er bod amrywiadau iaith wedi'u disgrifio'n draddodiadol yn nhermau 'bwlch geiriau', mae tystiolaeth yn dangos ei bod yn ymwneud ag ansawdd yn ogystal â nifer, yn benodol ansawdd yr iaith plentyn gyfeiriedig y mae rhieni'n eu defnyddio gyda'u plant o ddydd i ddydd.

3 Mae darllen a rhigymau yn bwysig, ond nid ydynt yn ddigonol. Mae astudiaethau yn dangos yn y blynyddoedd cynnar mai'r ffordd orau o gefnogi iaith yw trwy sgyrsiau rhwng y rhiant a'r plentyn sy'n briodol i ddatblygiad ac sy'n ymateb i ddiddordebau'r plentyn. Felly, mewn plentyndod cynnar mae hyn yn golygu iaith plentyn gyfeiriedig sy'n cynnwys eitemau'r tŷ a theganau. Ar gyfer plant bach mae nifer yn hollbwysig, yn arbennig o ran geirfa newydd. Yn y drydedd flwyddyn, mae plant yn elwa ar iaith fwy amrywiol a gramadegol gymhleth, a thu hwnt i hynny y cyfle i ddefnyddio naratif strwythuredig mewn sgyrsiau.

4 Mae cynnwys sgyrsiau rhwng rhieni a phlant yn bwysig iawn. Mae sgyrsiau ynglŷn â gwrthrychau a phethau byw yn helpu plant i ddeall sut y mae'r byd yn gweithio, sydd yn ei dro yn cefnogi eu gallu i resymu'n analogaidd wrth iddynt dyfu'n hŷn. Mae sgyrsiau ynglŷn â meddyliau, teimladau a dymuniadau eraill yn cynyddu eu hempathi a'u dealltwriaeth o safbwyntiau eraill. Canfuwyd bod sgyrsiau am rifau rhwng rhieni a phlant yn cefnogi galluoedd cyfri cynnar plant. Mae sgiliau cyfri cynnar yn ei dro yn rhagfynegi'n gryf gyflawniad mathemategol plant yn ddiweddarach yn yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd.

5 Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu'n nodweddiadol, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu magu mewn amddifadedd. Fodd bynnag, mae tystiolaeth gref i awgrymu bod y bwlch cyflawniad wedi'i seilio ar fylchau sy'n gysylltiedig ag incwm yn sgiliau iaith a chyfathrebu'r plant, sydd eisoes i'w gweld yn ystod ail flwyddyn bywyd. Mae ymyrraeth gynnar yn chwarae rhan bwysig mewn cefnogi plant sy'n dangos arwyddion cynnar o ddatblygiad nad yw'n nodweddiadol.

Dull system gyfan

Mae gwella canlyniadau plant ym mlynyddoedd cynnar bywyd yn dibynnu ar system leol effeithiol o gymorth i blant a'u teuluoedd, gan gysylltu'r gwahanol wasanaethau a sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd. Mae'r system gyfan hon yn cynnwys bydwragedd, ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymorth i deuluoedd, meddygon, gweithwyr chwarae, gwirfoddolwyr cymunedol, athrawon, therapyddion, gweithwyr cymdeithasol a llawer o bobl eraill, gan gynnwys arweinwyr a chomisiynwyr gwasanaethau i deuluoedd.

Mae'r matrics hwn yn amlinellu nodweddion system sy'n gweithredu'n dda, sy'n cynnwys trefniadau effeithiol ar gyfer strategaeth a chynllunio, arwain newid, cyflawni cymorth effeithiol a gwerthuso cynnydd. Mae'r pedwar dimensiwn hyn (CYNLLUNIO, ARWAIN, CYFLAWNI, GWERTHUSO) yn ffurfio strwythur y matrics.

Mae gan bob dimensiwn elfennau allweddol sy'n rhan hanfodol o system ymyrraeth gynnar leol, fel y dangosir ar dudalen 9. Disgrifir pob elfen allweddol ar bedair lefel cynnydd gwahanol i ganiatáu i'r ardal leol sgorio'u sefyllfa bresennol, a nodi'r camau y mae angen iddynt eu cymryd i wella.

Mae'r matrics yn un o gyfres o fatricsau ymyrraeth gynnar a ddatblygwyd gan yr EIF. Mae'r cynllun yn deillio o waith y Good Governance Institute, a gwaith yr EIF ar dystiolaeth ac arferion lleol.

Defnyddio'r matrics

Mae'r matrics yn becyn hunanasesu i helpu ardaloedd lleol i fesur cynnydd i greu system leol i helpu plant yn eu blynyddoedd cynnar i ffynnu, ac i lywio gwaith cynllunio i wneud y system leol hon yn fwy effeithiol. Gellir ei ddefnyddio hefyd i bennu llinell sylfaen ac olrhain cynnydd dros amser. Mae'n gweithredu fel sgaffaldwaith ar gyfer trafodaethau lleol ynglŷn â chynnydd a blaenoriaethau yn hytrach na darparu cyfres o atebion a bennwyd yn allanol.

Gellir cwblhau'r matrics yn unigol neu ei ddefnyddio fel strwythur ar gyfer trafodaeth grŵp, neu'r ddau. Mae cyfranogion yn sgorio'r ardal leol ar 10 elfen allweddol, gan nodi tystiolaeth ategol ar gyfer eu sgôr, ac yn ystyried rhwystrau i newid a blaenoriaethau ar gyfer gweithredu.

Mae systemau plentyndod cynnar yn gymhleth ac yn cynnwys llawer o wahanol sefydliadau a rhanddeiliaid. I gael darlun llawn, mae'n bwysig cynnwys rhanddeiliaid strategol a gweithredol o'r sbectrwm cyfan o wasanaethau a sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i blant a theuluoedd. Mae'r matrics yn gweithio orau pan fo amrywiaeth o bobl â gwahanol brofiadau a safbwyntiau yn cymryd rhan, a phan allant glywed a chymedroli cyfraniadau ei gilydd i greu darlun llawnach.

- **Trafodaeth grŵp:** gellir defnyddio'r matrics fel sail i drafodaeth rhanddeiliaid strwythuredig neu weithdy, gan rannu gwahanol safbwyntiau a llunio consensws ynglŷn â chynnydd a blaenoriaethau.
- **Asesiad unigol:** gellir defnyddio'r matrics hefyd i'w gwblhau gan randdeiliaid allweddol yn unigol. Mae'r dull hwn yn rhoi un safbwynt yn unig ar y system leol. Fodd bynnag, gall helpu rhanddeiliaid i baratoi ar gyfer trafodaeth pan fyddant yn dod at ei gilydd.

Dylai ardaloedd lleol sydd wedi defnyddio fersiynau cynharach o fatricsau aeddfedrwydd yr EIF weld bod y fersiwn hon yn darparu parhad a'i fod yn gyson â chwmpas heriau cymheiriaid yn y blynyddoedd cynnar. Fodd bynnag, efallai bydd cynnwys mamolaeth yn fwy penodol ochr yn ochr â'r blynyddoedd cynnar effeithio ar yr hunanasesiad i rai ardaloedd lleol.

Gwasanaethau plentyndod cynnar

Defnyddir y term 'gwasanaethau plentyndod cynnar' mewn statud i ddisgrifio prif elfennau system mamolaeth a blynyddoedd cynnar leol, gan gynnwys:

- darpariaeth blynyddoedd cynnar (addysg gynnar a gofal plant)
- swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol sy'n ymwneud â phlant ifanc, rhieni a darpar rieni
- gwasanaethau iechyd sy'n ymwneud â phlant ifanc, rhieni a darpar rieni
- gwasanaethau hyfforddiant a chyflogaeth i gynorthwyo rhieni neu ddarpar rieni
- gwasanaethau gwybodaeth a chyngor i rieni a darpar rieni.

Defnyddio Adobe Acrobat i lenwi'ch matrics aeddfedrwydd ar eich cyfrifiadur neu ddyfais

Os byddwch yn lawrlwytho ac yn agor eich matrics aeddfedrwydd drwy ddefnyddio Adobe Acrobat Reader, gallwch ddefnyddio'r offer 'Fill & Sign' i roi tic yn y blychau neu ychwanegu nodiadau.
Defnyddiwch y reolaethau sydd ar gael i addasu'r maint y testun i'w weld i gyd. Lawrlwythwch Acrobat Reader am ddim yn **https://acrobat.adobe. com/uk/en/acrobat/pdf-reader.html**

Early Intervention Foundation
The Evidence Quarter, Albany House, Petty France, Westminster, London SW1H 9EA | G: www.EIF.org.uk | E: info@eif.org.uk |
T: @TheEIFoundation | Ff : +44 (0)20 3542 2481
Cyhoeddwyd gyntaf ym mis Tachwedd 2020. © 2020

DIMENSIWN	ELFEN ALLWEDDOL	IS-ELFEN	LEFEL CYNNYDD			
			1 LEFEL SYLFAENOL	2 CYNNYDD CYNNAR	3 CYNNYDD SYLWEDDOL	4 AEDDFED
			Derbyn yr egwyddor ac ymrwymo i weithredu	Datblygiad cychwynnol	Cyflawni canlyniadau cychwynnol a chanlyniadau cadarnhaol i'w gweld	Arferion da wedi'u sefydlu, eraill yn dysgu o'r cyflawniadau
CYNLLUNIO	1 Strategaeth	1.1 Gweledigaeth, strategaeth a chynllun 1.2 Anghenion y boblogaeth				
	2 Adnoddau	*Dim is-elfennau*				
	3 Cynllunio Gweithlu	*Dim is-elfennau*				
ARWAIN	4 Partneriaeth	*Dim is-elfennau*				
	5 Arweinyddiaeth	*Dim is-elfennau*				
	6 Perchnogaeth y gymuned	6.1 Ymgysylltiad 6.2 Asedau cymunedol				
CYFLAWNI	7 Gwasanaethau ac ymyriadau	7.1 Ansawdd 7.2 Rhaglenni/ymyriadau wedi'u seilio ar dystiolaeth 7.3 Gwaith cydgysylltiedig				
	8 Rhannu gwybodaeth	8.1 Rhannu data personol 8.2 Gwybodaeth i deuluoedd				
GWERTHUSO	9 Canlyniadau	9.1 Fframwaith canlyniadau 9.2 Mynediad a phrofiad teuluoedd				
	10 Defnyddio a chynhyrchu tystiolaeth	10.1 Defnyddio tystiolaeth yn dda 10.2 Gwerthuso'n lleol				

Sut i ddefnyddio'r matrics

Rydym wedi llunio'r fersiwn estynedig hon o'r matrics ar ffurf 'llyfr gwaith' y gallwch ei anodi a'i ddatblygu yn rhan o'ch gwaith ymgynghori a chynllunio lleol. Mae'r fersiwn hirach hon o'r matrics ar gael i'w lawrlwytho o www.EIF.org.uk. Mae pob adran o'r pecyn hwn yn cynnwys dwy dudalen: y dudalen meini prawf (isod ar y chwith) a'r dudalen nodiadau (isod ar y dde).

Ticiwch y meini prawf sy'n disgrifio orau eich ardal leol, gan ddechrau o'r lefel sylfaenol. Weithiau efallai y byddwch yn teimlo eich bod rhwng dwy lefel – dim problem, gwnewch nodyn o hynny ar y dudalen gyferbyn.

Anwybyddwch y golofn 12 mis am y tro – gallwch ddefnyddio hon pan fyddwch yn dychwelyd at y matrics yn ddiweddarach, i gymharu'ch sgoriau gwreiddiol.

Ar y dudalen 'nodiadau' hon gallwch gadw cofnod o'r hyn sy'n eich cadw rhag gwneud gwelliannau (rhwystrau) a'r hyn y gallwch ei wneud am y peth (camau), yn y tymor byr, canolig a hir.





Mae'r adran hon yn newydd: mae'n rhoi rhestr wirio i chi o'r mathau o wybodaeth y gallech eu defnyddio i ddangos eich bod yn cyrraedd pob lefel cynnydd. Mae angen i'r wybodaeth ategol ddangos eich bod yn bodloni'r meini prawf – er enghraifft, ticiwch y blwch gwybodaeth ategol ar gyfer 5d dim ond os ydych yn hyderus bod adborth eich staff a'ch rhanddeiliaid yn dangos bod arweinwyr lleol yn annog arloesedd a chydweithredu. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr felly gallwch ychwanegu eich enghreifftiau eich hun yn y blwch 'arall'.

Os ydych yn gweithio gyda'r EIF ar y matrics byddwn yn defnyddio'ch rhestr o wybodaeth ategol i gynnal dilysiad ysgafn o'ch hunanasesiad cyffredinol. Ni fydd angen i chi gyflwyno y dogfennau hyn i'r EIF.

Efallai hoffech feddwl am y tymor byr fel y 6 mis nesaf, tymor canolig fel 6–24 mis a'r tymor hir ar ôl hynny.

Defnyddio Adobe Acrobat i lenwi'ch matrics aeddfedrwydd ar eich cyfrifiadur neu ddyfais: Os byddwch yn lawrlwytho ac yn agor eich matrics aeddfedrwydd drwy ddefnyddio Adobe Acrobat Reader, gallwch ddefnyddio'r offer 'Fill & Sign' i roi tic yn y blychau neu ychwanegu nodiadau. Defnyddiwch y reolaethau sydd ar gael i addasu'r maint y testun i'w weld i gyd. Lawrlwythwch Acrobat Reader am ddim yn https://acrobat.adobe. com/uk/en/acrobat/pdf-reader.html

EARLY INTERVENTION FOUNDATION

Matrics aeddfedrwydd yr EIF

Mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar

CYNLLUNIO 1 Strategaeth

Mae'r elfen hon yn canolbwyntio ar y weledigaeth, strategaeth a chynllun lleol ar gyfer mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar. Mae'n ystyried pa mor dda y deellir anghenion y gymuned, sut y caiff data eu defnyddio a beth yw'r blaenoriaethau a rennir ar gyfer gweithredu.

1.1 Gweledigaeth, strategaeth a chynllun

		Meini Prawf	Llinell Sylfaen	12 mis
Lefel sylfaenol	1.1a	Ceir cydnabyddiaeth ei bod yn bwysig cynllunio fel system gyfan ar gyfer canlyniadau da yn ystod mamolaeth a phlentyndod cynnar ond nid yw ar waith hyd yn hyn.	☑	☐
Cynnydd cynnar	1.1b	Mae strategaeth amlasiantaeth leol ar gyfer mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar yn cael ei datblygu	☐	☐
Cynnydd sylweddol	1.1c	Mae strategaeth amlasiantaeth yn darparu'r pwyslais ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau mamolaeth a blynyddoedd cynnar. Mae'r strategaeth yn ystyried tystiolaeth ac anghenion y boblogaeth.	☐	☐
	1.1d	Mae'r strategaeth yn ymdrin â datblygiad y plentyn o'r cyfnod amenedigol ymlaen ac yn mynd i'r afael â chymorth cyffredinol, wedi'i dargedu ac arbenigol i deuluoedd.	☐	☐
	1.1e	Mae'r strategaeth yn cael ei chyflawni drwy gynllun gweithredu sy'n ymateb i flaenoriaethau ar gyfer gwella.	☐	☐
	1.1f	Mae strategaethau lleol eraill sy'n ymwneud â theuluoedd a chymunedau yn cyfeirio at y strategaeth mamolaeth a blynyddoedd cynnar.	☐	☐
Aeddfed	1.1g	Mae'r Strategaeth Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar wedi'i hadolygu a'i diweddaru gan ymateb i ddata a thystiolaeth leol o ble mae angen gwelliannau.	☐	☐
	1.1h	Mae'r strategaeth yn cael ei chyflawni drwy gynllun gweithredu a gaiff ei fonitro ar lefel uwch.	☐	☐

Gwybodaeth ategol	Arall
Amserlenni ar waith	☑
Swyddog arweiniol penodedig	☐
Strategaeth wedi'i llunio ar y cyd â phartneriaid yn y 3 blynedd diwethaf	☐
Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb	☐
Mae'r strategaeth yn ymdrin â: • risgiau geni cyn amser	☐
• iechyd meddwl y fam	☐
• cymorth ymweliadau cartref wedi'i dargedu	☐
• gofal plant wedi'i gyfoethogi o ddwy flwydd oed	☐
• gwrthdaro rhieni	☐
• amddifadedd lluosog	☐
• ymyriadau i blant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu	☐
Cynllun gweithredu wedi'i fonitro yn y 3 mis diwethaf	☐
Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	☐
Strategaeth Gwrth-dlodi	☐
Strategaeth Cymorth i'r Teulu	☐
Adroddiad gwerthuso a dyddiad unrhyw newidiadau i'r strategaeth	☐
Cynlluniau gweithredu wedi'u monitro ar lefel strategol uwch yn y 3 mis diwethaf	☐

1 Strategaeth

1.1 Gweledigaeth, strategaeth a chynllun

Rhwystrau i newid	Camau blaenoriaeth	Byr	Canolig	Hir
		✓		

Nodiadau

1 Strategaeth

1.2 Anghenion y boblogaeth

		Meini Prawf	Llinell Sylfaen	12 mis
Lefel sylfaenol	1.2a	Dadansoddiad lleol o anghenion y boblogaeth yn cynnwys rhywfaint o ddata cyfyngedig ynglŷn â mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar.	✓	☐
Cynnydd cynnar	1.2b	Mae rhai partneriaid yn rhannu ac yn dadansoddi data ar lefel y boblogaeth ynglŷn ag anghenion a chanlyniadau mamolaeth a blynyddoedd cynnar, ac yn defnyddio hyn i nodi grwpiau agored i niwed, er enghraifft y rhai hynny ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.	☐	☐
Cynnydd sylweddol	1.2c	Mae partneriaid yn rhannu data mamolaeth a blynyddoedd cynnar ar gyfer asesiad amlasiantaeth o anghenion y boblogaeth. Mae data a gwybodaeth yn dylanwadu ar brosesau gwneud penderfyniadau a blaenoriaethu yn y strategaeth mamolaeth a blynyddoedd cynnar.	☐	☐
	1.2d	Mae'r asesiad o anghenion yn cynnwys naratif eglur o ganlyniadau plant ar adegau allweddol mewn bywyd, megis geni, dechrau dysgu (2–3 oed) a dechrau ysgol ac ar gyfer grwpiau o'r boblogaeth sy'n agored i niwed.	☐	☐
Aeddfed	1.2e	Dadansoddir data amlasiantaeth cadarn a diweddar ynglŷn â mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar fel mater o drefn, gan gynnwys anghenion a defnydd y boblogaeth o wasanaethau, wedi'i seilio ar ddata o bob rhan o'r bartneriaeth. Defnyddir y dadansoddiad fel mater o drefn i nodi grwpiau targed, cynllunio gwasanaethau, cytuno blaenoriaethau, rhagfynegi tueddiadau a chynllunio strategaeth, ac mae'n dylanwadu ar strategaethau teulu a chymunedol.	☐	☐

Gwybodaeth ategol	Arall
Enghreifftiau o rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau am y boblogaeth ac ar lefel gwasanaeth	✓
Mae data a gwybodaeth wedi'u cynnwys mewn asesiad amlasiantaeth o anghenion y boblogaeth (fel JSNA)	☐
Asesiad o anghenion wedi'i gwblhau neu ei ddiweddaru o fewn y 18 mis diwethaf	☐
Mae'r asesiad o anghenion yn ymdrin ag:	☐
• adegau allweddol mewn bywyd	
• grwpiau poblogaeth agored i niwed	☐
• teuluoedd o wahanol gymunedau/ ardaloedd daearyddol	☐
• teuluoedd ag anableddau	☐
• teuluoedd â ffactorau risg fel geni cyn amser a bod yn fam yn ystod llencyndod.	☐
Diweddariadau i'r asesiad o anghenion	☐
Cofnodion Grŵp Partneriaeth	☐

1 Strategaeth

1.2 Anghenion y boblogaeth

Rhwystrau i newid	Camau blaenoriaeth	Byr	Canolig	Hir
		✓		

Nodiadau

CYNLLUNIO 2 Adnoddau

Mae'r elfen hon yn canolbwyntio ar sut y mae'r ardal leol yn defnyddio adnoddau i gyflawni'r strategaeth leol ar gyfer mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar a chynyddu effaith. Mae hyn yn cynnwys mapio, cysoni a chyfuno adnoddau, a monitro ac adrodd ar berfformiad.

		Meini Prawf	Llinell Sylfaen	12 mis
Lefel sylfaenol	2a	Mae partneriaid yn cydnabod yr angen i drin asedau a gwasanaethau mamolaeth a blynyddoedd cynnar lleol yn rhan o system gydgysylltiedig, ond nid ydynt wedi mapio'r adnoddau sy'n rhan o'r system hon. Prin yw'r buddsoddiad y tu hwnt i ofynion statudol.	☑	☐
Cynnydd cynnar	2b	Nodir yr adnoddau a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau mamolaeth a blynyddoedd cynnar allweddol, ac mae dadansoddiad o flaenoriaethau ar y gweill.	☐	☐
	2c	Mae gofynion lleol ar gyfer gwasanaethau craidd fel bydwreigiaeth, ymweliadau iechyd, gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith, rhaglenni rhianta, cymorth i'r teulu a gwasanaethau ADY yn cael eu cysoni.	☐	☐
Cynnydd sylweddol	2d	Mae blaenoriaeth mewn gwasanaethau mamolaeth a blynyddoedd cynnar yn flaenoriaeth leol ac mae partneriaid yn cyfuno/cysoni cyllid i gefnogi cyflawniad y strategaeth, wedi'i seilio ar waith mapio a dadansoddi adnoddau presennol.	☐	☐
	2e	Ceir lefel uwch o fapio a dadansoddi adnoddau ar gyfer gwasanaethau mamolaeth a blynyddoedd cynnar ac mae'n dechrau hysbysu dyraniad adnoddau yn rhan o'r strategaeth.	☐	☐
	2f	Defnyddir tystiolaeth i lywio penderfyniadau cyllid – defnyddir adnoddau i gynnal dulliau sydd wedi'u treialu'n llwyddiannus gyda chyllid tymor byr.	☐	☐
Aeddfed	2g	Ceir tystiolaeth o symudiadau sylweddol mewn buddsoddiad i waith atal ac ymyrryd yn gynnar yn ystod mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar. Mae mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar yn flaenoriaeth yn y broses pennu cyllideb leol.	☐	☐
	2h	Mae'r holl benderfyniadau ynglŷn â chyllido ac ailgynllunio gwasanaethau mamolaeth a blynyddoedd cynnar yn ystyried cryfder y dystiolaeth.	☐	☐

Gwybodaeth ategol		Arall
Amserlen ar gyfer cwblhau	☑	
Arweinydd penodedig	☐	
Amserlen ar gyfer cwblhau	☐	
Arweinydd penodedig	☐	
Pennu mewn strategaeth	☐	
Mapio adnoddau	☐	
Cofnod o benderfyniadau cyllid	☐	
Adroddiadau rhaglenni treialu	☐	
Gwerthuso	☐	
Adroddiadau blynyddol	☐	
Adroddiadau buddsoddi ffurfiol	☐	
Gwerthuso	☐	

Rhwystrau i newid	Camau blaenoriaeth	Byr ✓	Canolig	Hir

Nodiadau

CYNLLUNIO 3 Cynllunio gweithlu

Mae'r elfen hon yn canolbwyntio ar drefniadau lleol i sicrhau bod gan y gweithlu amlasiantaeth y sgiliau a'r hyder iawn i gyflawni'r strategaeth mamolaeth a blynyddoedd cynnar leol. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi anghenion y gweithlu ar draws y system, a chyflenwi capasiti a gallu trwy ailgynllunio, recriwtio a hyfforddi.

		Meini Prawf	Llinell Sylfaen	12 mis
Lefel sylfaenol	3a	Mae tuedd i gynlluniau gweithlu fod yn gyfyngedig neu ganolbwyntio ar ddisgyblaethau unigol, ond mae cytundeb i gydweithio ar faterion gweithlu.	☑	☐
Cynnydd cynnar	3b	Mae anghenion gweithlu amlasiantaeth yn cael eu mapio ar draws mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar.	☐	☐
